**Dyddiad cyhoeddi** Ionawr 2009

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

# Tywysiad uwchsain i osod blaen nodwydd ger nerf i roi anesthetig a/neu boenladdwr

*Mae 'arweiniad Techlechyd' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio tywysiad uwchsain yn y GIG i helpu i osod nodwydd ger nerf i roi anesthetig a/neu boenladdwr. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio tywysiad uwchsain i osod nodwydd ger nerf yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi am hynny. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 6.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd i bobl sydd angen anesthetig neu boenladdwr, yn ystod llawdriniaeth neu ar ei hôl, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Mae NICE wedi dweud hefyd mai dim ond meddygon sydd â phrofiad o roi blociau nerfau lleol ac sydd wedi cael hyfforddiant mewn technegau tywys uwchsain ddylai gyflawni'r driniaeth.

### Sylwadau eraill gan NICE

Dylai fod gan offer uwchsain ansawdd delwedd digonol.

## Tywysiad uwchsain i osod blaen nodwydd ger nerf i roi anasthetig a/neu boenladdwr

*Efallai nad hon yw'r unig ffordd bosibl o osod blaen nodwydd. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw ‘bloc nerfau lleol a dywysir gan uwchsain’.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch meddyg i gael disgrifiad llawn.

Mae angen chwistrellu anesthetig neu gyffuriau lleddfu poen i mewn i rai cleifion yn ystod llawdriniaeth neu ar ei hôl i atal poen mewn mannau penodol. Gellid hefyd defnyddio’r math hwn o bigiad i reoli poen cronig. Gelwir hyn yn bloc nerfau lleol oherwydd chwistrellir yr anesthetig neu'r cyffuriau lleddfu poen yn agos at y nerf yn y man y cynhelir y llawdriniaeth neu'n agos at y nerf sy'n trosglwyddo'r boen.

Gyda delweddu uwchsain, gall yr unigolyn sy'n cyflawni'r dasg (yr anesthetydd fel arfer) ‘weld’ y nerf. Mae hyn yn ei helpu i dywys blaen y nodwydd i'r man cywir a gwneud yn siwr bod yr anesthetig yn cyrraedd y man a dargedir.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio’n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod tywysiad uwchsain i helpu i osod blaen nodwydd ger nerf yn ddewis addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo’n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o’r manteision a’r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar 11 astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

Nododd dwy astudiaeth bod bloc nerfau yn fwy llwyddiannus gan ddefnyddio tywysiad uwchsain na heb uwchsain. Mewn astudiaeth o 188 o gleifion, roedd y gyfradd llwyddiant yn 83% ar gyfer tywysiad uwchsain a 63% hebddo. Mewn astudiaeth o 40 o gleifion, roedd bloc nerfau'n fwy llwyddiannus ac yn gyflymach mewn 20 o gleifion a driniwyd gyda thywysiad uwchsain o gymharu ag 20 a driniwyd hebddo. Roedd angen anesthetig cyffredinol ar un claf yn y grŵp tywysiad uwchsain a dau yn y grŵp hebddo. Nododd dwy astudiaeth arall bod bloc nerfau yn llwyddiannus mewn 99% allan o 1146 o gleifion ac mewn 94% allan o 520 o gleifion a driniwyd gyda thywysiad uwchsain.

Mewn astudiaeth o 60 o gleifion a gafodd lawdriniaeth, nid oedd bloc nerfau yn llwyddiannus mewn 1 allan o 20 o gleifion a driniwyd gan ddefnyddio tywysiad uwchsain ac mewn 2 allan o 20 o gleifion a driniwyd hebddo.

Nododd astudiaeth o 100 o gleifion fod angen llai o anesthetig i flocio'r nerfau pan ddefnyddiwyd tywysiad uwchsain. Roedd angen poen laddwyr ar lai o gleifion yn y grŵp tywysiad uwchsain (6%) nag yn y grŵp heb dywysiad uwchsain (40%) ar ôl llawdriniaeth.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod y ffactorau a ddefnyddir i asesu pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio yn cynnwys pa mor llwyddiannus yw'r bloc nerfau, faint o anesthetig

sydd ei angen, pa mor gyflym y lliniarwyd poen y claf, difrifoldeb y boen, a sawl gwaith roedd angen gwthio'r nodwydd i mewn.

## Risgiau a phroblemau posibl

Y tri phrif gymhlethdod oedd teimlad yn debyg i ‘binnau bach’, twll mewn pibell waed ac anafiadau i'r nerf. Yn yr astudiaeth o 188 o gleifion, cafodd 13 allan o 64 o gleifion yn y grŵp uwchsain ac 13 allan o 64 o gleifion hebddo 'binnau bach', yn para hyd at 5 diwrnod. Nododd astudiaeth o 40 o gleifion fod gan nifer sylweddol fwy o bobl 'binnau bach’ yn y grŵp heb uwchsain nag yn y grŵp uwchsain. Yn yr un astudiaeth, cafodd dim un o'r 20 o gleifion yn y grŵp uwchsain a 3 allan o 20 yn y grŵp hebddo dwll yn y bibell waed. Mewn astudiaeth arall o 60 o gleifion, cafodd dim un o'r 20 o gleifion yn y grŵp uwchsain a 4 allan o 40 o gleifion hebddo dwll yn y bibell waed, gan achosi cleisio. Cafodd dau allan o 620 o gleifion niwed i'r nerfau ar ôl cael cathetr (pibell denau) wedi'i osod gan ddefnyddio tywysiad uwchsain, ar gyfer trin poen barhaus. Diflannodd y symptomau ar ôl pythefnos mewn un claf ac ar ôl 6 wythnos yn y llall.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr y gallai problemau gynnwys niwed i organau, niwed i nerfau, gwallau chwistrellu, gwaedu a'r ysgyfaint yn ymgwympo.

## Rhagor o wybodaeth am leddfu poen ac anesthetig

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn PALS fel arfer) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'bloc nerfau lleol a dywysir gan uwchsain'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar www.nice.org.uk/HTG179*

*Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon o gyhoeddiadau NICE (ffoniwch 0845 003 7783 neu anfonwch neges e-bost i publications@nice.org.uk a dyfynnwch y cyfeirnod N1818).*

*Rydym yn annog sefydliadau'r sector gwirfoddol a sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7862-5
N1818 1P Ion 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.